# HNC Peirianneg Sifil



**Yn gryno**

Bydd y cwrs hwn yn rhoi cyfle i chi astudio cymhwyster sy'n gydnabyddedig o fewn y diwydiant Peirianneg Sifil, ac sy'n cael ei gydnabod yn broffesiynol gan ICE, ISE, CIAT, RICE, CIOB, CIBSE a CIPHE.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Mae gennych ddiddordeb brwd mewn Peirianneg Sifil

... Rydych eisiau cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol

...Rydych yn gweithio'n dda mewn astudiaethau ymarferol a damcaniaethol

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Cyflwynir y cymhwyster gan Pearson Edexcel, ac mae'n cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan weithwyr arbenigol y diwydiant yng Nghampws Casnewydd. Mae'r modiwlau rydym yn eu

darparu yn cynnwys datblygiad cynaliadwy a darparu'r technegau a phrosesau diweddaraf mewn modiwlau graffig sy'n seiliedig ar brosiect.

Ymhlith y modiwlau mae:

Prosiect Unigol
Technoleg Adeiladu
Gwyddoniaeth a defnyddiau
Rheolaeth ac Ymarfer Adeiladu
Dadansoddiad a dyluniad strwythurol
Hydroleg
Mathemateg mewn adeiladu

Mae'r sesiynau yn gymysgedd o ddarlithoedd, stiwdios dylunio ac arbrofi ymarferol, yn seiliedig ar sefyllfaoedd prosiect go iawn a phroblemau efelychol.

Rydym yn cynnig yr HNC dros gyfnod o 1 -2 flynedd, gydag 8 modiwl i'w cwblhau. Bydd myfyrwyr Rhan Amser yn cael eu rhyddhau ar ddydd Mawrth, a myfyrwyr Llawn Amser yn cael eu rhyddhau ar ddydd Mawrth a dydd Iau.

Gellir darparu ar gyfer sefyllfaoedd personol.

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Wedi cychwyn y cwrs, rydym yn disgwyl ymrwymiad a diddordeb llawn ar gyfer eich astudiaethau, a byddwch angen astudio yn eich amser eich hun i gefnogi eich gwaith yn y coleg.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Os ydych yn cwblhau eich HNC yn llwyddiannus, gallwch gwblhau'r HND mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig ar gampws Casnewydd.

Mae nifer o'r unigolion sy'n gweithio mewn swyddi rheoli o fewn cwmnïau adeiladu a pheirianneg sifil wedi cymhwyso hyd at lefel HNC. Drwy gwblhau HNC, ac o bosib, HND, byddwch yn cael cyfleoedd i ddilyn gyrfaoedd mewn rheoli, yn ogystal ag astudio a gwneud cynnydd yn y dyfodol.

Y llwybr naturiol i'w dilyn ar ôl cwblhau'r HNC a/neu HND yw manteisio ar ein cysylltiadau gyda

Phrifysgolion lleol, a thrafod yr opsiynau ar gyfer astudio BEng, neu BSE Eng mewn Peirianneg Sifil. Gallwch hefyd ddefnyddio'r cwrs llwybr at Beirianneg Strwythurol.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Byddwch yn elwa o fod â mynediad at liniadur, er mwyn dod yn gyfarwydd â'r broses Dylunio gyda Chymorth Cyfrifiadur.

Argymhellir i chi brynu pren mesur graddfa, pensiliau/pinnau graffig ac offer ysgrifennu cyffredinol (cost oddeutu £150.00)